# Astudiaeth 'Well i mi'

Lles, iechyd a ffitrwydd plant gydag amhariadau symudedd (Well i mi)

## Fedrwch chi ein helpu drwy ddweud beth ydych chi'n ei feddwl am gadw'n heini?



**6-10 oed**

http://wellmi.bangor.ac.uk

# Beth ydi'r Astudiaeth Well i mi?

Bwriad yr Astudiaeth Well i mi ydi cynllunio gweithgareddau cadw'n heini llawn hwyl i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.



**Yn ngham gyntaf yr astudiaeth, rydym eisiau gofyn cwestiynau i chi fel:**



Llinos Spencer

Beth ydych chi'n ei feddwl am weithgareddau cadw'n heini llawn hwyl?

Pa bethau llawn hwyl yr hoffech chi wneud mwy ohonynt i gadw'n heini?

Gofynnwyd i chi gymryd rhan yn yr Astudiaeth Well i mi oherwydd eich bod yn defnyddio cadair olwyn.

Bydd Llinos yn recordio'r hyn fyddwch yn ei ddweud efo recordydd llais ac, os ydio'n iawn, efo recordydd fideo.





## Lle fydd rhaid i mi fynd i gymryd rhan?



- Gall yr ymchwilydd (o'r enw Llinos) ddod i'ch cartref i siarad efo chi a'ch rhieni

**neu**



- Gall yr ymchwilydd (o'r enw Llinos) siarad efo chi a phlant eraill mewn lle agos i ble rydych chi'n byw (fel canolfan hamdden). Byddwn yn talu eich costau teithio.

Bydd yr ymchwilydd yn gofyn a all hi siarad efo chi eto mewn ychydig wythnosau.



## Ydw i'n cael rhywbeth am gymryd rhan?

Byddwch yn cael **tocyn 'diolch' £15** bob tro y byddwch yn cymryd rhan yn yr astudiaeth Well i mi.

Gellwch ddewis:

High Street Vouchers

**Neu**

iTunes© Vouchers.




Love2shop
High Street Vouchers



iTunes©
gift vouchers

**Rydym yn gobeithio y byddwch yn cymryd rhan hefyd yn nau gam nesaf yr astudiaeth Well mi**

Yng ngham 2 fe hoffem fesur eich ffitrwydd.



Yng Ngham 3 hoffem eich holi beth ydych chi'n ei feddwl o focs gweithgareddau cadw'n heini Well i mi.

## Unrhyw gwestiynau?

Os ydych eisiau gwybod mwy am yr astudiaeth Well i mi, gellwch:

- Ffonio
- Anfon e-bost
- Llenwi ffurflen cysylltu




**Ffôn:** 01248 38 3171

**E-bost:** L.Spencer@bangor.ac.uk

**Gwefan:** http://wellmi.bangor.ac.uk

Rhowch wybod i Llinos os ydych eisiau cymryd rhan yn yr astudiaeth Well i mi.



**Cyfeiriad:**
**Dr Llinos Spencer**
**Swyddog Ymchwil Astudiaeth Well i mi**
Canolfan Ymchwil Gysylltiedig ag Iechyd
Fron Heulog, Ffordd Ffriddoedd
**RHADBOST BG35**
Bangor, Gwynedd, LL57 2BR

**Ffôn:** 01248 38 3171
**E-bost:** L.spencer@bangor.ac.uk
**Gwefan:** http://wellmi.bangor.ac.uk

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY